CYNGOR ARBENNIG

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS NOS FERCHER 24 CHWEFROR AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd C. Andrews – Maer

Cynghorwyr:

M. Adams, Mrs E.M. Aldworth, A.P. Angel, P.J. Bevan, C. Bezzina, L.J. Binding, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, M. Davies, K. Dawson, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, J.E. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, A.G. Higgs, A. Hussey, M.P. James, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B.A. Jones, S. Kent, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G.D. Oliver (drwy'r ffôn), B. Owen, Mrs T. Parry, Mrs L. Phipps, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, R. Saralis, Mrs M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, S. Skivens, Mrs E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. Whittle, T.J. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Cyllid a Swyddog S151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), R. Thomas (Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio), S. Pugh (Rheolwr Cyfathrebu), A. Southcombe (Rheolwr Cyllid – Cyllid Corfforaethol), R. Williams (Cyfrifydd Grŵp – Trysorlys a Chyfalaf), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

TREFNIADAU FFRYDIO I'R WE A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio, ac na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Wylio. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cynghorwyr J. Bevan, Mrs C. Forehead, Miss E. Forehead, J. Gale (Dirprwy Faer), D. Harse, D. Havard, D.V. Poole a J. Roberts.

2. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorwyr D.T. Davies, C. Elsbury ac A. Hussey fuddiant personol yn Eitem Rhif 5 yr Agenda fel aelodau o Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Mae'r manylion wedi'u cofnodi gyda'r eitem berthnasol

ADRODDIADAU SWYDDOGION

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

3. ADRODDIAD STRATEGAETH GYFALAF 2021/2022

Ystyriwyd yr adroddiad, a oedd yn amlinellu manylion y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yn unol â'r Cod Materion Ariannol a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar ei gynnwys. Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 12 Ionawr 2021, a oedd yn argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf.

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Strategaeth Gyfalaf yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau, ynghyd â throsolwg o sut mae risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli a beth fyddai'r goblygiadau ar gyfer cyanliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion cyffredinol y cyllidebau cyfalaf craidd ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae manylion pellach rhaglen gyfalaf graidd 2021/2022 – 2023/24 a chyllid y rhaglen ar gael yn Adroddiad y Gyllideb.

Yn ogystal â'r cyllidebau cyfalaf craidd, mae'r rhaglen gyfalaf ehangach hefyd yn cynnwys ystod o gynlluniau a ariennir o ffynonellau allanol, ac mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn cynnwys manylion yr hyn y gellir ei ystyried yn wariant cyfalaf a'r fframwaith penderfynu ar gyfer y cynigion buddsoddi cyfalaf. Yn sail i hyn mae'r Cod Materion Ariannol ar gyfer Buddsoddiadau Awdurdodau Lleol, sy'n sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, y gwneir penderfyniadau rheoli trysorlys yn unol ag arfer proffesiynol da, a bod gwaith cynllunio strategol lleol, rheoli ac arfarniadau opsiynau priodol yn cael eu cefnogi.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad llafar, ac wrth nodi bod 59 o blaid, 1 yn erbyn, ac 1 yn ymatal, cytunwyd i hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2021/22.

4. STRATEGAETH FLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS, DANGOSYDDION DARBODUS CYLLID CYFALAF A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW AR GYFER 2021/22.

Ystyriwyd yr adroddiad, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar Strategaeth Flynyddol yr Awdurdod ar gyfer Rheoli Trysorlys a set ddata o Ddangosyddion Darbodus sy'n berthnasol i Reoli'r Trysorlys a Chyllid Cyfalaf. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol ar Gyllidebau Cyfalaf a Refeniw ["yr adroddiad cyllideb"] a ystyriwyd yn y cyfarfod hwn hefyd. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer mabwysiadu polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw gan yr Awdurdod ar gyfer 2021/22.

Nodwyd y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 12 Ionawr 2021 ar gyfer sylwadau, a chefnogwyd yr argymhellion i'r Cyngor ar ôl trafodaeth briodol.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi lefel yr enillion ar fuddsoddiadau a wnaed gan yr Awdurdod, a chynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r adroddiad. Drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad llafar, ac wrth nodi bod 62 o blaid, 0 yn erbyn, a 0 yn ymatal, cytunwyd ar hyn yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD: -

(i) cymeradwyo'r Strategaeth Flynyddol ar gyfer Rheoli Trysorlys 2021/22;

(ii) adolygu'r strategaeth yn chwarterol mewn adroddiadau monitro Rheoli Trysorlys a gyflwynir i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau, ac y bydd unrhyw newidiadau argymelledig yn cael eu cyfeirio at y Cabinet yn yr achos cyntaf, ac i'r Cyngor ar gyfer penderfyniad. Bydd yr Awdurdod hefyd yn paratoi adroddiad hanner blwyddyn ar weithgarwch Rheoli Trysorlys;

(iii) cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn unol ag Atodiad 5 yr adroddiad;

(iv) cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Cyllido Cyfalaf yn unol ag Atodiad 6 a 7 yr adroddiad;

(v) bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw fel y nodir yn Atodiad 8 yr adroddiad;

(vi) parhau â strategaeth fuddsoddi 2020/21 a benthyca i sefydliadau ariannol a Chorfforaethau yn unol â'r meini prawf sgorio credyd isafswm a ddatgelir yn yr adroddiad;

(vii) bod yr Awdurdod yn benthyg £37.2 miliwn ar gyfer y Gronfa Gyffredinol i gefnogi rhaglen gyfalaf 2021/22 a £52.0 miliwn ar gyfer y rhaglen Tai Fforddiadwy a SATC Cyfrif Refeniw Tai;

(viii) bod yr Awdurdod yn parhau i fabwysiadu'r raddfa gradd buddsoddi fel isafswm maen prawf sgorio credyd er mwyn asesu teilyngdod credyd gwrthbartïon addas wrth wneud buddsoddiadau;

(ix) bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r cyfyngiadau hyd buddsoddiad ac ariannol a nodwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad.

5. CYNIGION Y GYLLIDEB AR GYFER 2021/22 A'R RHAGOLWG ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Datganodd y Cynghorwyr D.T. Davies, C. Elsbury ac A. Hussey fuddiant personol fel aelodau o Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, ac arhoson nhw yn y cyfarfod wrth i'r eitem gael ei hystyried.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Gwasanaethau i Gwsmeriaid yr adroddiad, a oedd wedi'i gefnogi gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2021, a cheisiwyd cymeradwyaeth y Cyngor ar gynigion cyllideb 2021/22. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor hefyd.

Hysbyswyd y Cyngor bod y cynigion yn rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa i barhau i amddiffyn ei wasanaethau allweddol, a bydd y codiad o 3.1% yn y Setliad Ariannol Dros Dro ynghyd â'r cynnydd arfaethedig o 3.9% yn y Dreth Gyngor yn golygu na fydd angen nodi unrhyw arbedion newydd er mwyn cydbwyso'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Gofynnwyd i'r Cyngor nodi bod y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor yn debygol o fod yn is na llawer o awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, a bydd yn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn wydn yn ariannol wrth wneud ei orau i amddiffyn ei drigolion.

At hynny, bydd y cynigion yn yr adroddiad hefyd yn cynnal darpariaeth gwasanaeth ar draws y Cyngor, yn ariannu'r galw cynyddol a phwysau gwasanaeth mewn meysydd allweddol fel Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, yn galluogi buddsoddiadau newydd sy'n canolbwyntio ar y gymuned mewn meysydd fel Gofalu am Gaerffili a'r Gronfa Grymuso Cymunedol arfaethedig, yn darparu'r gallu a'r gwytnwch angenrheidiol i yrru Rhaglen Trawsnewid Tîm Caerffili a'r Cynllun Llywio Lleoedd yn eu blaen, ac yn mynd i'r afael â materion etifeddol mewn perthynas â diffygion incwm mewn nifer o feysydd gwasanaeth. Mae'r Cyngor ar daith o adferiad, gwelliant a thrawsnewidiad, a bydd y cynigion sydd wedi'u gosod yn yr adroddiad yn rhoi llwyfan cadarn i symud ymlaen gyda'i gynlluniau uchelgeisiol.

Nodwyd na fydd manylion Setliad Ariannol Terfynol Llywodraeth Leol 2021/22 yn cael ei gyhoeddi tan 2 Mawrth 2021, ond disgwylir na fydd hyn yn amrywio llawer o'r sefyllfa a nodwyd yn y Setliad Dros Dro. Eglurwyd hefyd nad yw'r cynigion cyllideb yn cynnwys y goblygiadau ariannol parhaus sy'n deillio o bandemig Covid-19, a bydd rhai yn parhau i gael eu hariannu drwy grantiau Llywodraeth Cymru.

Cafodd y Cyngor fanylion y symud a ragwelir ym malans y Gronfa Gyffredinol, a nodwyd mai'r balans newydd a ragwelir yw £11.232 miliwn, sy'n cynrychioli 3.05% o Gyllideb Refeniw Net 2021/22. Mae hyn ychydig yn uwch na'r isafswm o 3% a argymhellir gan y Swyddog Adran 151.

Cydnabuwyd bod y cynnydd arfaethedig o 3.9% yn y Dreth Gyngor wedi arwain at bryderon ymhlith trigolion ac mae deiseb wedi'i chyflwyno, ond pwysleisiwyd y bydd y cynnydd golygu na fydd unrhyw doriadau newydd i wasanaethau hanfodol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, gan alluogi'r Cyngor i barhau i gefnogi trigolion trwy'r cyfnod mwyaf heriol ers cenhedlaeth. Atgoffwyd yr aelodau y bydd y cynigion yn yr adroddiad yn helpu taith y Cyngor tuag at drawsnewid a gweithredu'r Fframwaith Lles a Llywio Lleoedd, gan gynnig gobaith, cryfder a phwrpas, a gan ganolbwyntio ar gyflawni, gwella a gwytnwch ariannol yn y cyfnod heriol hwn.

Diolchodd yr aelodau i Steve Harris a'i staff am baratoi'r adroddiad manwl a diolchwyd i holl staff y Cyngor am eu hymroddiad i barhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod pandemig Covid-19.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo.

Croesawodd yr aelodau'r ffaith na fydd toriadau i wasanaethau yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, ond mynegwyd pryderon ynghylch effaith y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor, yn enwedig o ystyried y caledi ariannol y mae llawer o drigolion wedi'i brofi o ganlyniad i bandemig Covid-19. Trafododd y Cyngor y cynnig hwn yn fanwl, a mynegodd sawl Aelod bod angen cefnogaeth gyffredinol ar y cynigion cyllidebol er mwyn darparu'r cyfleoedd gorau i drigolion y fwrdeistref. Pwysleisiodd Aelodau eraill nad oeddent yn erbyn ethos y cynigion cyllidebol, ond eu bod yn teimlo y gellid cyflawni cynnydd is yn y Dreth Gyngor gan barhau i gynnal cydbwysedd yn y gyllideb.

Cyhoeddodd un Aelod y byddai'n cynnig gwelliant yn nes ymlaen yn y drafodaeth i ostwng y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor i 2.4%. Mynegodd bryderon bod y swm sydd

wedi'i gyllidebu ar gyfer codiadau cyflog gweithwyr yn fwy na'r hyn sydd ei angen yn realistig; awgrymodd fod angen dod â rhenti eiddo diwydiannol yn ôl ar y trywydd cywir, ac roedd ganddo bryderon hefyd ynghylch lefel y costau staffio mewn perthynas â'r Tîm Trawsnewid.

Ymatebodd Steve Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog S151) i'r sylwadau hyn ac esboniodd y byddai gostwng codiad y Dreth Gyngor i 2.4% yn arwain at ddiffyg o £849 mil yng nghyllideb refeniw 2021/22 ac y byddai hyn yn golygu y bydd yn rhaid dod o hyd i arbedion. At hynny, ni fyddai'r refeniw ychwanegol o £849 mil ar gael yn ystod y blynyddoedd i ddod, gan arwain at angen uwch am arbedion Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Darparwyd eglurhad ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r codiad cyflog a chyhoeddiad Canghellor y Deyrnas Unedig y bydd cyflogau'n cael eu rhewi ar gyfer y rhan fwyaf o weithwyr Llywodraeth Leol. Esboniwyd bod y dyfarniad cyflog yn fater i Awdurdodau Lleol, yr Undebau Llafur a Chorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ar Gyflog Athrawon ac nad yw'r cynigion cyllidebol ond yn caniatáu ar gyfer cynnydd cymedrol o 1% ar gyfer yr holl staff, ochr yn ochr â'r taliad o £250 ar gyfer y rhai sy'n ennill llai na £24 mil. Esboniwyd ymhellach y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddal yn ganolog nes y cytunir ar ddyfarniad cyflog 2021/22 ac yna bydd naill ai'n cael ei ryddhau i wasanaethau neu ei gadw fel arbediad ymlaen llaw yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau. Esboniwyd hefyd y bydd angen nodi cyllid ychwanegol ar gyfer unrhyw ddyfarniad cyflog sy'n fwy na'r lefelau y cyllidebwyd ar eu cyfer. Mewn perthynas â'r buddsoddiadau a gynigir yn y Tîm Trawsnewid, atgoffwyd yr Aelodau o ddyheadau'r Cyngor o ran trawsnewid a'r Cynllun Llywio Lleoedd, a phwysleisiwyd bod angen y buddsoddiad hwn er mwyn symud y cynlluniau hyn yn eu blaen.

Yn ystod y drafodaeth, cafwyd ymholiad ynghylch y pwysau ariannol mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig, ac amlinellwyd y rhain i'r Aelodau, a nodwyd bod angen twf o £2.5 miliwn i'r gyllideb er mwyn ateb costau blwyddyn lawn lleoliadau.

Mewn ymateb i ymholiadau eraill gan Aelodau, rhoddodd y Swyddogion sicrwydd bod y Cyngor yn ymdrechu i ddiogelu ac i gynnal ansawdd y gwasanaethau ar yr un lefel â chyn Covid, a rhoddwyd eglurhad ar nifer y cartrefi sy'n cael cefnogaeth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Cafwyd ymholiadau hefyd ar y cynnig buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy ar gyfer llinell drydan rhwng Fferm Gelliargwellt a Thredomen, a chostau ar gyfer estyniad arfaethedig Ysgol Cae'r Drindod. Cadarnhawyd nad oedd y cynigion hyn yn ffurfio rhan o'r adroddiad cyllideb, ac y byddan nhw'n destun prosesau ymgynghori ar wahân, a bydd adroddiadau pellach yn cael eu paratoi i'r Aelodau eu hystyried.

Gofynnodd Aelod am gadarnhad o'r costau'n ymwneud â'r ymchwiliad i gyflog uwch swyddog a chostau'r trefniadau setlo, ac eglurodd Mr Harris bod y manylion hyn wedi'u dosbarthu i Aelodau'n flaenorol drwy nifer o adroddiadau, ac maent hefyd wedi'u nodi yn Natganiadau Ariannol Blynyddol y Cyngor. Gofynnodd Aelod hefyd am gyfanswm y lleihad yn nifer swyddi ers 2017, ynghyd â chanran y swyddi sy'n swyddi gwag yn ystod yr un cyfnod, a chadarnhawyd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Yn ystod trafodaeth ar y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor, cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant mewn perthynas ag Argymhelliad 1.6 (v) am gynnydd o 0% yn y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn unig yng ngoleuni pandemig Covid-19. Awgrymodd Aelod arall y gellid dargyfeirio canran o gyllideb yr Agenda Drawsnewid i wneud iawn am y cynnydd o 0%. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog S151 y byddai cynnydd o 0% yn arwain at fwlch o oddeutu £2.2 miliwn yn y gyllideb.

Gofynnodd Aelod a oedd gwarged o gyllid ychwanegol LlC a wnaed ar gael i awdurdodau lleol i gefnogi Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y gellid ei ddefnyddio i'w osod yn erbyn

cynnydd yn y Dreth Gyngor. Cadarnhaodd Mr Harris mai ychydig dros £300 mil oedd cyfran Caerffili o'r cyllid, a'i fod wedi'i roi ar gael i gefnogi costau ychwanegol yn ymwneud â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ym mlwyddyn ariannol 2020/21 yn unig. Eglurwyd nad oedd modd ei ddefnyddio i leihau lefel y Dreth Gyngor o flwyddyn i flwyddyn, gan nad yw'r cyllid ar gael ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Yn ystod y drafodaeth ar y gwelliant arfaethedig, dyfynnodd y Cynghorydd S. Morgan sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd J. Fussell yn y Cyd-bwyllgor Craffu ar 22 Chwefror 2021 mewn perthynas â'r cynigion buddsoddi Llywio Lleoedd ar gyfer datblygiad gwesty yn Lôn y Parc yng Nghaerffili. Dywedodd y Cynghorydd Fussell bod y Cynghorydd Morgan wedi camddehongli ei sylwadau a gofynnodd iddo dynnu ei eiriau yn ôl, ac wrth egluro dywedodd ei fod wedi dyfynnu ffynhonnell allanol ond nad oedd yn rhannu eu safbwyntiau. Ymddiheurodd y Cynghorydd Morgan am unrhyw gamddehongliad a thynnodd ei ddatganiad yn ôl.

Atgoffwyd cynigydd y gwelliant ar gyfer cynnydd o 0% yn y Dreth Gyngor y byddai angen i'r gwelliant gynnwys cyllid amgen i gwrdd ag effaith net o £2.206 miliwn o ddiffyg. Dywedodd yr Aelod ei fod eisoes wedi darparu cyllideb amgen i Swyddogion ddwy flynedd yn ôl ond nad oedd wedi cael ymateb, a'i fod yn aros i gael cyfeirlyfr gwasanaeth y Cyngor er mwyn pennu lle gellid gwneud arbedion. Eglurodd Mr Harris bod y cyfeirlyfr gwasanaeth yn y broses o gael ei orffen, ond bod pethau eraill wedi gorfod cael blaenoriaeth ers pandemig Covid-19.

Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant mewn perthynas ag Argymhelliad 1.6 (v) ar gyfer cynnydd o 0% yn y Dreth Gyngor, a thrwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad llafar, nodwyd bod 5 o blaid, 52 yn erbyn, a 2 yn ymatal, a datganwyd bod y gwelliant wedi'i golli.

Yna cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant pellach i Argymhelliad 1.6 (v) yr adroddiad, sef y dylid gostwng lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor i 2.4% a bod y diffyg o £849 mil yn cael ei dalu trwy ostwng y swm a ganiateir ar gyfer codiadau cyflog yn y dyfodol, ad-drefnu'r Tîm Trawsnewid, mynd i'r afael â'r diffyg ar renti eiddo diwydiannol, ac ystyried defnyddio arian dros ben a ddelir yn y Gronfa Gyffredinol.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15.4 (1), gwnaed cais am bleidlais a gofnodir a gefnogwyd gan 10 Aelod.

O blaid y Gwelliant:
A.P. Angel, P.J. Bevan, L.J. Binding, D. Cushing, M. Davies, C. Elsbury, R.W. Gough, M.P. James, S. Kent, C.P. Mann, Mrs T. Parry, Mrs M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, S. Skivens, J. Taylor, L.G. Whittle **(17)**

Yn erbyn y Gwelliant:
M. Adams, Mrs E.M. Aldworth, C. Andrews, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, D.T. Davies, K. Dawson, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, N. George, C. Gordon, D.T. Hardacre, L. Harding, A.G. Higgs, A. Hussey, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B.A. Jones, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, P. Marsden, S. Morgan, Mrs G.D. Oliver, Mrs L. Phipps, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, R. Saralis, J. Simmonds, Mrs E. Stenner, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, T.J. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski **(41)**

Ymatal:
N. Dix, B. Owen **(2)**

Gwrthododd y Cynghorydd B. Miles gymryd rhan yn y bleidlais gan ei bod wedi profi anawsterau technegol ac felly heb glywed y drafodaeth gyfan ar y gwelliant.

Cyhoeddwyd bod y gwelliant wedi'i golli.

Yn dilyn trafodaeth bellach ar ôl cynnig ac eilio y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad, cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig gwreiddiol.

Gwnaed cais am bleidlais a gofnodir yn unol â Rheol Gweithdrefn 15.4 (1), ac ni chefnogwyd y cais.

Drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad llafar, ac wrth nodi bod 39 o blaid, 17 yn erbyn, ac 1 yn ymatal, cytunwyd i'r argymhellion gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD: -

(i) Cytuno ar y cynigion cyllideb refeniw ar gyfer 2021/22 o £368.227 miliwn fel y nodwyd drwy'r adroddiad a'u crynhoi yn Atodiad 1;

(ii) Cymeradwyo'r cynnig i benodi pedwar Rheolwr Prosiect tymor penodol am gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd i gefnogi'r gwaith o ddarparu Rhaglen Trawsnewid a Chynllun Llywio Lleoedd y Cyngor, gan ariannu'r costau llawn o £368 mil o'r gronfa £1.8 miliwn a gymeradwywyd gan y Cyngor yn flaenorol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (paragraff 5.3.37);

(iii) Nodi'r symudiadau ar y Gronfa Gyffredinol yn Atodiad 2 a chytuno i'r cynnig bod £1.050 miliwn o falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei ddefnyddio am flwyddyn yn unig i gefnogi cyllideb 2021/22 gan nad oes disgwyl gwarged Treth Gyngor ym mlwyddyn ariannol 2020/21;

(iv) Cytuno i'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2021/22 i 2023/24 fel y nodwyd yn Atodiad 3;

(v) Cytuno i'r cynnig i wneud cynnydd o 3.9% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22 i sicrhau y cyflawnir cyllideb gytbwys (gyda Band D y Dreth Gyngor yn cael ei osod ar £1,230.57);

(vi) Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 4 gan ddangos gofyniad arbed posib dangosol o £2.1 miliwn am y cyfnod o bedair mlynedd 2022/23 i 2025/26.

6. PENDERFYNIAD GOSOD TRETH GYNGOR 2021/22

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion Treth Gyngor yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, cyn pasio'r datrysiadau statudol angenrheidiol.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y datrysiadau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo, a thrwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad llafar a thrwy nodi bod 40 o blaid, 15 yn erbyn, ac 1 yn ymatal, cytunwyd i hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD: -

1. Nodi y cyfrifodd y Cabinet yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2020 y symiau canlynol ar gyfer blwyddyn 2021/22 yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a grymoedd a ddarperir o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd).

(a) **60,793.26** Yw'r swm a gyfrifwyd gan y Cabinet, yn unol â Rheoliad (3) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 1995 (fel y'u diwygiwyd) fel sylfaen y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn.

(b) **Rhan o Ardal y Cyngor:**

	Sylfaen Drethu Nifer o Fandiau D Eiddo Cyfwerth
Cwm Aber	**2,021.25**
Argoed	**857.68**
Bargod	**3,689.61**
Bedwas, Tretomos a Machen	**3,878.38**
Coed Duon	**2,952.00**
Caerffili	**6,281.05**
Cwm Darran	**718.70**
Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri	**615.41**
Gelligaer	**6,279.57**

	Sylfaen Drethu Nifer o Fandiau D Eiddo Cyfwerth
Llanbradach a Phwll-y-pant	**1,486.17**
Maes-y-cwmwr	**897.09**
Nelson	**1,591.05**
Tredegar Newydd	**1,347.84**
Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn	**4,468.28**
Rhymni	**2,566.71**
Dwyrain Rhisga	**2,043.13**
Gorllewin Rhisga	**1,819.97**
Y Fan	**1,639.61**
Gweddill	**15,639.76**
Cyfanswm	**60,793.26**

yw'r symiau a gyfrifwyd gan y cabinet, yn unol â rheoliad 6 y Rheoliadau, fel symiau sylfaen y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae un eitem arbennig neu fwy yn berthnasol iddynt.

2. *Bod y symiau canlynol nawr yn cael eu cyfrifo gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn 2021/2022 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992: -*

(a) **£368,227,794** *yw swm cyfanredol y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) i (d) y Ddeddf;*

(b) **£1,050,000** *yw swm cyfanredol y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) i (c) y Ddeddf;*

(c) **£368,076,546** *yw'r swm y mae'r swm cyfanredol yn (2)(a) uchod yn rhagori ar y swm cyfanredol yn (2)(b) uchod, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, fel ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn;*

(d) **£292,367,432** *yw swm cyfanredol y symiau y mae'r Cyngor yn ei amcangyfrif a fydd yn daladwy ar gyfer y flwyddyn i'w gronfa cyngor mewn perthynas â chyfraddau annomestig wedi'u hailddosbarthu, grant cymorth refeniw, cynllun gostyngiadau treth gyngor awdurdod, neu grant ychwanegol;*

(e) **£1,245.36** *yw'r swm yn (2)(c) uchod llai y swm yn (2)(d) uchod, oll wedi'u rhannu gan y swm yn (1)(a) uchod, wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, fel swm sylfaen y dreth gyngor am y flwyddyn;*

(f) **£898,752** *yw swm cyfanredol yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn adran 34(1) y Ddeddf;*

(g) **£1,230.57** *yw'r swm yn (2)(e) uchod llai y canlyniad a roddir drwy rannu'r swm yn (2)(f) uchod gyda'r swm yn (1)(a) uchod, wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaen ei dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes eitem arbennig yn berthnasol iddynt;*

(h) **Rhan o Ardal y Cyngor**

	Praesept Lleol	**Ardoll Bwdeistref Sirol**	**Cyfanswm Tâl Band D y Fwrdeistref Sirol a'r Cyngor Cymunedol**
	£	**£**	**£**
Cwm Aber	19.79	1,230.57	1,250.36
Argoed	15.00	1,230.57	1,245.57
Bargod	33.85	1,230.57	1,264.42
Bedwas, Tretomos a Machen	25.77	1,230.57	1,256.34
Coed Duon	20.00	1,230.57	1,250.57
Caerffili	15.50	1,230.57	1,246.07
Cwm Darran	18.06	1,230.57	1,248.63
Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri	32.50	1,230.57	1,263.07
Gelligaer	21.13	1,230.57	1,251.70
Llanbradach a Phwll-y-pant	22.89	1,230.57	1,253.46
Maes-y-cwmwr	20.40	1,230.57	1,250.97
Nelson	18.18	1,230.57	1,248.75
Tredegar Newydd	12.56	1,230.57	1,243.13
Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn	14.22	1,230.57	1,244.79
Rhymnni	13.64	1,230.57	1,244.21
Dwyrain Rhisga	12.00	1,230.57	1,242.57

Gorllewin Rhisga	27.70	1,230.57	1,258.27
Y Fan	16.68	1,230.57	1,247.25
Gweddill	0.00	1,230.57	1,230.57

yw'r symiau a roddir drwy ychwanegu i'r swm yn (2)(g) uchod symiau'r eitemau arbennig neu'r eitemau'n ymwneud ag anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a grybwyllwyd uchod, wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn (1)(b) uchod, wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, fel y symiau sylfaenol, ei dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un eitem arbennig neu fwy yn berthnasol iddynt;

(i)

Bandiau Prisio	**A**	**B**	**C**	**D**	**E**	**F**	**G**	**H**	**I**
	£	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**
Cyngor Bwrdeistref Sirol	820.38	957.11	1,093.84	1,230.57	1,504.03	1,777.49	2,050.95	2,461.14	2,871.33
Cynghorau Cymunedol									
Cwm Aber	13.19	15.39	17.59	19.79	24.19	28.59	32.98	39.58	46.18
Argoed	10.00	11.67	13.33	15.00	18.33	21.67	25.00	30.00	35.00
Bargod	22.57	26.33	30.09	33.85	41.37	48.89	56.42	67.70	78.98
Bedwas, Tretomos a Machen	17.18	20.04	22.91	25.77	31.50	37.22	42.95	51.54	60.13
Coed Duon	13.33	15.56	17.78	20.00	24.44	28.89	33.33	40.00	46.67
Caerffili	10.33	12.06	13.78	15.50	18.94	22.39	25.83	31.00	36.17
Cwm Darran	12.04	14.05	16.05	18.06	22.07	26.09	30.10	36.12	42.14
Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri	21.67	25.28	28.89	32.50	39.72	46.94	54.17	65.00	75.83
Gelligaer	14.09	16.43	18.78	21.13	25.83	30.52	35.22	42.26	49.30
Llanbradach a Phwll-y-pant	15.26	17.80	20.35	22.89	27.98	33.06	38.15	45.78	53.41
Maes-y-cwmwr	13.60	15.87	18.13	20.40	24.93	29.47	34.00	40.80	47.60
Nelson	12.12	14.14	16.16	18.18	22.22	26.26	30.30	36.36	42.42
Tredegar Newydd	8.37	9.77	11.16	12.56	15.35	18.14	20.93	25.12	29.31
Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn	9.48	11.06	12.64	14.22	17.38	20.54	23.70	28.44	33.18
Rhymni	9.09	10.61	12.12	13.64	16.67	19.70	22.73	27.28	31.83
Dwyrain Rhisga	8.00	9.33	10.67	12.00	14.67	17.33	20.00	24.00	28.00
Gorllewin Rhisga	18.47	21.54	24.62	27.70	33.86	40.01	46.17	55.40	64.63
Y Fan	11.12	12.97	14.83	16.68	20.39	24.09	27.80	33.36	38.92
Gweddill	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00

Bandiau Prisio	**A**	**B**	**C**	**D**	**E**	**F**	**G**	**H**	**I**
	£	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**
Cyfansymiadau ar gyfer Ardaloedd Cynghorau Cymunedol									
Cwm Aber	833.57	972.50	1,111.43	1,250.36	1,528.22	1,806.08	2,083.93	2,500.72	2,917.51
Argoed	830.38	968.78	1,107.17	1,245.57	1,522.36	1,799.16	2,075.95	2,491.14	2,906.33
Bargod	842.95	983.44	1,123.93	1,264.42	1,545.40	1,826.38	2,107.37	2,528.84	2,950.31
Bedwas, Tretomos a Machen	837.56	977.15	1,116.75	1,256.34	1,535.53	1,814.71	2,093.90	2,512.68	2,931.46
Coed Duon	833.71	972.67	1,111.62	1,250.57	1,528.47	1,806.38	2,084.28	2,501.14	2,918.00
Caerffili	830.71	969.17	1,107.62	1,246.07	1,522.97	1,799.88	2,076.78	2,492.14	2,907.50
Cwm Darran	832.42	971.16	1,109.89	1,248.63	1,526.10	1,803.58	2,081.05	2,497.26	2,913.47
Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri	842.05	982.39	1,122.73	1,263.07	1,543.75	1,824.43	2,105.12	2,526.14	2,947.16
Gelligaer	834.47	973.54	1,112.62	1,251.70	1,529.86	1,808.01	2,086.17	2,503.40	2,920.63

Llanbradach a Phwll-y-pant	835.64	974.91	1,114.19	1,253.46	1,532.01	1,810.55	2,089.10	2,506.92	2,924.74
Maes-y-cwmwr	833.98	972.98	1,111.97	1,250.97	1,528.96	1,806.96	2,084.95	2,501.94	2,918.93
Nelson	832.50	971.25	1,110.00	1,248.75	1,526.25	1,803.75	2,081.25	2,497.50	2,913.75
Tredegar Newydd	828.75	966.88	1,105.00	1,243.13	1,519.38	1,795.63	2,071.88	2,486.26	2,900.64
Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn	829.86	968.17	1,106.48	1,244.79	1,521.41	1,798.03	2,074.65	2,489.58	2,904.51
Rhymni	829.47	967.72	1,105.96	1,244.21	1,520.70	1,797.19	2,073.68	2,488.42	2,903.16
Dwyrain Rhisga	828.38	966.44	1,104.51	1,242.57	1,518.70	1,794.82	2,070.95	2,485.14	2,899.33
Gorllewin Rhisga	838.85	978.65	1,118.46	1,258.27	1,537.89	1,817.50	2,097.12	2,516.54	2,935.96
Y Fan	831.50	970.08	1,108.67	1,247.25	1,524.42	1,801.58	2,078.75	2,494.50	2,910.25
Gweddill	820.38	957.11	1,093.84	1,230.57	1,504.03	1,777.49	2,050.95	2,461.14	2,871.33

yw'r symiau a roddir drwy luosi'r symiau yn (2)(g) a (2)(h) uchod gyda'r rhif sydd, yn y gyfran a nodwyd yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrwyd mewn band prisio penodol a rannwyd gan y nifer sydd, yn y gyfran honno, yn berthnasol i anheddau sydd wedi'u rhestru mewn band D prisio penodol, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, fel y symiau i gael eu hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau anheddau a restrwyd mewn gwahanol fandiau prisio.

3. Nodi am y flwyddyn 2021/2022 fod y prif awdurdod praeseptio wedi datgan y symiau canlynol mewn praeseptau a gyhoeddir i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau eiddo a ddangosir isod:-

Bandiau Prisio	**A**	**B**	**C**	**D**	**E**	**F**	**G**	**H**	**I**
	£	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**
Awdurdod Praeseptio									
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent	191.97	223.97	255.96	287.96	351.95	415.94	479.93	575.92	671.91

4. Ar ôl cyfrifo'r swm cyfanredol ym mhob achos y symiau yn (2)(i) a (3) uchod, mae'r Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn gosod y symiau canlynol ar gyfer Treth Gyngor am y flwyddyn 2021/2022 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

Bandiau Prisio	**A**	**B**	**C**	**D**	**E**	**F**	**G**	**H**	**I**
	£	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**	**£**
Cwm Aber	1,025.54	1,196.47	1,367.39	1,538.32	1,880.17	2,222.02	2,563.86	3,076.64	3,589.42
Argoed	1,022.35	1,192.75	1,363.13	1,533.53	1,874.31	2,215.10	2,555.88	3,067.06	3,578.24
Bargod	1,034.92	1,207.41	1,379.89	1,552.38	1,897.35	2,242.32	2,587.30	3,104.76	3,622.22
Bedwas, Tretomos a Machen	1,029.53	1,201.12	1,372.71	1,544.30	1,887.48	2,230.65	2,573.83	3,088.60	3,603.37
Coed Duon	1,025.68	1,196.64	1,367.58	1,538.53	1,880.42	2,222.32	2,564.21	3,077.06	3,589.91
Caerffili	1,022.68	1,193.14	1,363.58	1,534.03	1,874.92	2,215.82	2,556.71	3,068.06	3,579.41
Cwm Darran	1,024.39	1,195.13	1,365.85	1,536.59	1,878.05	2,219.52	2,560.98	3,073.18	3,585.38
Draethen,Tŷ'n-y-coed-cae a Rhydri	1,034.02	1,206.36	1,378.69	1,551.03	1,895.70	2,240.37	2,585.05	3,102.06	3,619.07
Gelligaer	1,026.44	1,197.51	1,368.58	1,539.66	1,881.81	2,223.95	2,566.10	3,079.32	3,592.54
Llanbradach a Phwll-y-pant	1,027.61	1,198.88	1,370.15	1,541.42	1,883.96	2,226.49	2,569.03	3,082.84	3,596.65
Maes-y-cwmwr	1,025.95	1,196.95	1,367.93	1,538.93	1,880.91	2,222.90	2,564.88	3,077.86	3,590.84
Nelson	1,024.47	1,195.22	1,365.96	1,536.71	1,878.20	2,219.69	2,561.18	3,073.42	3,585.66
Tredegar Newydd	1,020.72	1,190.85	1,360.96	1,531.09	1,871.33	2,211.57	2,551.81	3,062.18	3,572.55

Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn	1,021.83	1,192.14	1,362.44	1,532.75	1,873.36	2,213.97	2,554.58	3,065.50	3,576.42
Rhymni	1,021.44	1,191.69	1,361.92	1,532.17	1,872.65	2,213.13	2,553.61	3,064.34	3,575.07
Dwyrain Rhisga	1,020.35	1,190.41	1,360.47	1,530.53	1,870.65	2,210.76	2,550.88	3,061.06	3,571.24
Gorllewin Rhisga	1,030.82	1,202.62	1,374.42	1,546.23	1,889.84	2,233.44	2,577.05	3,092.46	3,607.87
Y Fan	1,023.47	1,194.05	1,364.63	1,535.21	1,876.37	2,217.52	2,558.68	3,070.42	3,582.16
Gweddill	1,012.35	1,181.08	1,349.80	1,518.53	1,855.98	2,193.43	2,530.88	3,037.06	3,543.24

7. CYNLLUN BRYS AR GYFER BYSIAU (BES) – CAIS I BOB CYNGOR GOFTRESTRU I GYNLLUN BES 2 – EITEM FRYS I'W HYSTYRIED GAN Y CABINET

Cadarnhaodd y Maer yr ystyriwyd yr adroddiad fel eitem frys gan y Cabinet ar 27 Ionawr 2021 ac o dan ofynion y Cyfansoddiad, bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wnaed fel mater o frys gael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor, gan roi'r rhesymau dros y brys. Felly, gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r rhesymau pam oedd brys a Phenderfyniad y Cabinet.

Nododd y Cyngor yr adroddiad a phenderfyniad y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.19 pm.

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir, yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 13 Ebrill 2021.

_____

MAER